

## Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP).

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhencadlys Llanion - 28 02 23

**Aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid oedd yn bresennol yn y cyfarfod:** Demi Lee Cole. Sara Davies. Michele Chung. Jack Evans.

**Hwyluswyr:** Maisie Sherratt. Graham Peake.

**Ymwelwyr:** Amherthnasol

### Materion a drafodwyd

Eitem ar yr Agenda	Trafodaeth	Gweithredu
1.	Dal i fyny / Mewngofnodi	
2.	Pob Parc Cenedlaethol yng Nghymru – gwahoddiad i PC Brycheiniog i ddiwrnod parcmyn ieuenctid ar y cyd wedi'i dderbyn.	Maisie i gael mwy o wybodaeth am weithgareddau ac amserau gan PC Brycheiniog.
3.	Byrddau Murlun. <ul style="list-style-type: none"><li>- Gwahoddiad i Wyl Penfro rannu'r byrddau â'r gymuned.</li><li>- Gwaith celf gan Ysgol y Preseli ac ysgol Gatholig Neyland.</li><li>- Dyddiad posibl gan Oriel y Parc i'r byrddau gael eu harddangos.</li></ul>	Maisie i gwrdd â Linda Osman (seremoni agor Parc Gwyrdd) i drefnu sesiwn ar gyfer y Byrddau Murlun (08/05).  Maisie i drefnu casglu gwaith celf myfyrwyr TGAU a Lefel A.  Maisie i gysylltu ag Oriel y Parc ynglŷn â dyddiad ar gyfer arddangos y byrddau.
4.	Cyfleoedd i wirfoddoli yng Ngŵyl Penfro.  Tocyn am ddim i wirfoddolwyr yr ŵyl – cyfleoedd gwirfoddoli gydol yr wythnos gyfan.	Maisie i roi mwy o wybodaeth a manylion cyswllt i aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid.
5.	Sylwadau adborth diwrnod ymgysylltu Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau.	Maisie i gysylltu â Hollie Phillips yn yr

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Addysgiadol.</li> <li>- Diddorol.</li> <li>- Atebodd y staff pob cwestiwn oedd gennym.</li> <li>- Yn ddiddorol iawn ac yn llawn gwybodaeth.</li> <li>- Roedd y staff yn groesawgar iawn ac yn awyddus i ymgysylltu â'r grŵp.</li> </ul>	Awdurdod Porthladd a rhannu'r adborth.
6.	<p>Diwrnodau ymgysylltu yn y dyfodol...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ymgysylltu â chwmnïau sydd â nodau ac amcanion tebyg i APCAP.</li> <li>- PCF, Valero, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, FSC, Bluestone, Kiln Park, Cynnyrch Puffin, Stackpole Dairy, Folly Farm.</li> </ul>	Maisie i gysylltu â'r cwmnïau ynglŷn â'r cyfleoedd i drefnu diwrnod ymgysylltu.
7.	<p>Cyfleoedd Hyfforddiant PCF</p> <p>Dydd Iau 20 Ebrill 2023</p> <p>Dydd Iau 27 Ebrill 2023</p> <p>Dydd Llun 15 Mai 2023</p> <p>Dydd Mawrth 16 Mai 2023</p> <p>Dydd Mercher 7 Mehefin 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae'r mwyafrif o'r cyfleoedd hyfforddi yn ystod y dydd, a heb fod ar gael i bobl ifanc.</li> </ul>	Maisie i gysylltu â PCF a gofyn a ellid cynnal sesiynau hyfforddi ar benwythnosau/yn ystod y gwyliau i bobl ifanc.
8.	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Swyddi warden tymhorol – aelodau Parcmyn Ieuencid yn ystyried gwneud cais.</li> <li>- Cyfleoedd tymhorol yng Nghastell Caeriw – aelodau'r Pwyllgor Ieuencid â diddordeb mewn gwneud cais.</li> </ul>	Maisie i gysylltu â staff APCAP ynghylch y swyddi gwag oedd ar gael a bod diddordeb gan aelodau'r Pwyllgor Ieuencid / Parcmyn Ieuencid.
9.	Allan-gofnodi.	